



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Hydref 2017 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 October 2017 at 6.30pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*), Clive Davies, Elaine Evans (*gadawodd/left at 8.00pm*), Graham Evans, Marilyn Farmer (*gadawodd/left at 8.15pm*), Debra Griffiths, Wyn Jones, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd/left at 7.00pm*), Trystan Phillips, Shan Williams.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Yn absenoldeb anorfod y Maer, cadeiriwyd y cafarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis. Croesawodd ef bawb i'r cyfarfod a dymunodd wellhad buan i dad y Maer, Mr Emyr Jones. Cydymdeimlodd â theulu'r diweddar artist ymroddedig Mr Aneurin Jones a fu'n Faer Tref Aberteifi yn 1978-9. Cyfeiriodd hefyd at y ddamwain erchyll pan gollodd Mr Steffan Thomas ei fywyd fore Sul diwethaf; yn yr un modd cyfeiriwyd at farwolaeth brawychus o sydyn Mr David Rees. Cytunwyd bod y cyngor yn anfon eu cydymdeimlad at y tri theulu yn eu hiraeth.

Ar nodyn hapusach datganwyd bod y cyn-Faer Melfydd George ar wellhad yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd y Cyng. Yvonne O'Neill ar ei phenodi yn Wirfoddolwraig y Flwyddyn gyda Scowntiaid Cymru.

In the unavoidable absence of the Mayor, the meeting was chaired by the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis. He welcomed all and wished the Mayor's father, Mr Emyr Jones, a swift recovery. The council's sympathy was extended to the family of a past Mayor of Cardigan, the renowned artist Mr Aneurin Jones, who served as Mayor during 1978-9. The Deputy Mayor referred to the tragic accident and the death of Mr Steffan Thomas early on Sunday morning, and also the premature death of Mr David Rees. It was agreed that sympathy cards be forwarded to all three families. On a happier note, Cllr Adams-Lewis stated that the past Mayor Mr Melfydd George was recovering after a prolonged hospital stay. Cllr Yvonne O'Neil was congratulated on being nominated as a Volunteer of the Year with Scouts Cymru.

2. Ymddiheuriadau / Apologies:

Y Cyng. / Cllr Richard Jones (*materion teuluol/family matters*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.</i>
Y Cyng. / Cllr Clive Davies	<i>Gohebiaeth/Correspondence [138], [139]</i>
Y Cyng. / Cllr Graham Evans	<i>Gohebiaeth/Correspondence [138]</i>
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	<i>Gohebiaeth/Correspondence [139]</i>
Y Cyng. / Cllr Shan Williams	<i>Gohebiaeth/Correspondence [138]</i>

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 5 Medi.

Confirmation of Minutes of 5 September Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neil ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod cofnodion 5 Medi yn gywir.

Cllr Yvonne O'Neil proposed that the 5 September minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Shan Williams.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

7. Cynllunio / Planning

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A170880	Estover, Brynhafod	<i>Codi annedd 5 ystafell wely.</i> Erection of a 5 bedroom dwelling	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A170881	Parc-y-pys	<i>Addasiadau ac estyniad gan gynnwys dymchwel y storfa sydd ynghlwm.</i> Alterations and extension including demolition of attached store.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

8. Materion ariannol / Financial matters:

(a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
27/9/17	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
30/9/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office (<i>Medi</i> / September). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> /Rent of Conference Room (5 & 19 <i>Medi</i> / September) <i>Band Lydan (Hydref)</i> / Broadband (October)	A9 A9 A20	D/D 4443 4443	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
22/9/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> / Simultaneous translation (5/9/17)	A18	4444	£78.30 (0.00)
30/9/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary (<i>Medi</i> / September)	A3	4445	£759.36 (0.00)
18/9/17	BT: <i>Ffôn</i> / Telephone	A20	4446	£84.80 (14.13)
3/10/17	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 (<i>Gorffennaf, Awst, Medi</i> – July, August, Sept. 2017)	A16	4447	£567.30 (IT) + £109.89 (NIC) = £677.19 (0.00)
13/9/17	Midshire: <i>Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63+ VAT)</i> 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment.	A17	4448	£166.33 (27.72)
1/10/17	Vision ICT: <i>Cynnal y safle we</i> / Maintenance of website (December 2017 – November 2018)	C8	4449	£252.00 (42.00)
30/9/17	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson: (<i>Medi</i> / September)	A19	4450	£435.60 (72.60)

Derbyniadau / Receipts:

Heddlu Dyfed-Powys Police:

(*Hurio'r offer cyfieithu*/hire of translating equipment) £50.00

Cynigiodd y Cyng. Debra Griffiths bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Debra Griffiths proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

(b) Adroddiad Ariannol Chwarterol y Cyngor / Council's Quarterly Financial Report.

Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.

Cllr Clive Davies proposed that the council approves the financial report; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

- (c) **Cadarnhau dyddiad archwiliad ariannol mewnol gan gynghorwyr .**
Confirmation of date of internal financial paper trail by councillors.
Cytunodd y Cyng. Marilyn Farmer a'r Cyng. Shan Williams drefnu dyddiad addas i archwilio'r cyfrifon gyda'r cler.
Cllr Marilyn Farmer and Cllr Shan Williams agreed to arrange a suitable date to inspect the council accounts with the clerk.

9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Elaine Evans:

Nid oedd gan y Cyng. Evans unrhyw faterion i'w trafod.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Gwyntyllodd y Cyng. Adams-Lewis argymhellion Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth (Gari Jones) y cyngor sir i lydanu'r palmant yn Stryd y Coleg hyd y cyffordd ac i wneud y lôn yn un-ffordd i'r man uchaf. Mae bwriad hefyd i bedestreiddio'r ffordd gul heibio i Theatr Mwldan; nid oes unrhyw wrthwynebiad gan yr Heddlu na'r Brigâd Dân i hyn. Mae'r drafodeth yn parhau i wneud gwelliannau o Theatr Mwldan i gyffordd Pendre gydag argymhellion i osod llinellau melyn dwbl yr holl ffordd. Mynegodd y Cyng. Catrin Miles ei phryder wrth i blant Ysgol Gynradd Aberteifi gerdded lawr o'r cyffordd tuag at y theatr. Mae trafodaeth ar y gweill i ddatblygu palmant lletach ar y dde o Bendre lawr hyd Theatr Mwldan.

(c) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Yn dilyn y ddamwain erchyll ar y ffordd ger stad Ridgeway, mae angen dybryd bellach i ailedrych ar gyfyngu cyflymder ar y rhan yma neu osod palmant ar y naill ochr neu'r llall. Pan ddaw Ken Skates (gweinidog â chyfrifoldeb am drafnidiaeth Llywodraeth Cymru) ar ymweliad, bydd rhaid pwysleisio hyn. Yn yr un modd, ychwanegodd y Cyng. Adams-Lewis bod angen cael diweddariad oddi wrth Mr Skates am osod palmant o Heol Caemorgan i bentref Penyparc.
- (ii) Mae preswylwyr ardal Penbont yn pryderu bod y gwelliannau i'r ffordd yn Heol y Castell yn dilyn symud y grid haearn wedi gadael gostyngiad yn y ffordd; bydd angen gosod draeniau newydd i gymryd orlifiad y dŵr glaw. Bydd yr aelod lleol yn cydweithio â swyddogion i sicrhau y cymerir pob cam posib i leihau'r risg o lifogydd yn yr ardal.
- (iii) Datgelodd y Cyng. Miles y newyddion da bod Llywodraeth Cymru yn awr yn agos i ryddhau £22m i symud ymlaen â'r datblygiad am adeiladu canolfan iechyd newydd ar safle Bath House.
- (iv) Mae Marchnad Aberteifi bellach wedi derbyn caniatâd CADW i symud ymlaen â gwelliannau i'r safle. Cadarnhaodd y Cyng. Elaine Evans bod y cynllun i osod mesuryddion trydan i bob stondin wedi ei gymeradwyo.

(a) Cllr Elaine Evans:

Cllr Evans had no matters to report.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis highlighted the recommendations offered by Gari Jones, the county council Assistant Engineer Transport Strategy, to widen the pavement in College Row and to create a one-way system up to the junction. A further suggestion is to create a pedestrianised area alongside Theatr Mwldan; the Police and the Fire Brigade have no objection to this proposed road safety development. The discussion to combat the traffic congestion from Theatr Mwldan up to Pendre and to place double yellow lines along the whole section of this highway continues. Cllr Catrin Miles noted the danger schoolchildren faced when walking from Pendre down to Theatr Mwldan. Discussions are in hand to widen this pavement down towards the theatre.

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) Following the horrendous accident near the Ridgeway estate, it is paramount that plans need to be in place to restrict the speed of traffic or create a pavement on one side or the other. When Ken Skates (Welsh Government minister with responsibility for transport) visits the area, this suggestion will be sternly highlighted. Likewise, Cllr Adams-Lewis seeks an update to the development of the pavement from Caemorgan Road to the village of Penyparc.
- (ii) Residents in the Penbont area are concerned that improvements to the highway following the removal of the deafening grids have left a dip in the road which might endanger flooding in the area. The local member will liaise with officers to ensure that flooding risks in the area will be minimal.

- (iii) Cllr Miles announced the good news that the Welsh Government was now in a position to release the funding of £22m towards developing the integrated health centre on the Bath House site.
- (iv) Cardigan Market has now received permission by CADW to advance with its improvements to the site. Cllr Elaine Evans confirmed that the project to place electric meters for each stall has been approved.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
116	CSC/CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Adolygiad o derfyn cyflymder (30mya) Briscwm.</i> Briscwm speed limit (30mph) review.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/9/17. <i>Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad.</i> Members had no objections to the undertaking.
117	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Gwella mynediad i wybodaeth am ailgylchu – Sesiynau Galw Heibio Ailgylchu.</i> Improving access to recycling information – Recycling Drop-in Sessions.	<i>Os oes diddordeb, mae angen cysylltu erbyn 31 Hydref i fedru creu amserlen ar gyfer ymweliadau i gymunedau.</i> If interested, contact 01545 572572 by 31 October to schedule visits to communities. <i>Dymuna'r aelodau wahodd ymweliad gan y cerbyd i Aberteifi er mwyn i'r trigolion ymweld â'r cerbyd i gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth ailgylchu a gwastraff sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor sir.</i> Members wish to invite a visit from the vehicle to obtain further information about recycling and waste services provided by the county council.
118	CSC / CCC (Huw Williams): <i>Gwahoddiad i gynrychiolydd fynychu cyfarfod panel archwilio safleoedd.</i> Invitation for a representative to attend the Site Inspection Panel, 28/9/17 at 4.00pm (A170387: 7 Parc Teifi)	<i>Cytunodd y Cyng. Shan Williams fynychu'r archwiliad.</i> Cllr Shan Williams agreed to attend the inspection. <i>Er i'r cyngor sir wrthod y datblygiad, ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cyhoedd. Trafodir y cais eto gan y cyngor sir ar 11 Hydref.</i> Although the county council did not approve the application, no objections were received by the public. The application will be further discussed by the county council on 11 October.
119	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Creu llwybrau cerdded newydd.</i> Creating new footways in Cardigan.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/9/17.
120	CSC / CCC (Eirian Jones): <i>Ymateb i gwynion y cyngor /</i> Response to the council's concerns: (a) The bench at Heol Helyg will be removed; (b) Repair work on the Prince Charles quay will commence shortly. <u>Addendum:</u> Correspondence received from Ms Rowena Lightfoot (Brondesbury Lodge) enquiring as to the whereabouts of the bench located on the Aberystwyth Road/Y Rhos junction.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/9/17. <i>Gofynnir i'r cyngor sir osod bolardiau i atal ceir rhag parcio ar y cei.</i> It was agreed to ask the county council to place bollards to prevent vehicles parking on the quay.
121	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro.</i> Temporary road closure / Stryd y Priordy/Priory Street, 10-14/10/17, 18.00-23.00, <i>gwaith arwynebu /</i> resurfacing work	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 26/9/17.
122	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro.</i> Temporary road closure / Pendre, 17-21/10/17, 18.00-23.00, <i>gwaith arwynebu /</i> resurfacing work	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/9/17.
123	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro.</i> Temporary road closure, William Street, 9-13/10/17, 0800-18.00., <i>gwaith arwynebu /</i> resurfacing work.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/9/17.
124	CSC / CCC (Katy Spain): <i>Ymateb i ddryswch prisiau'r maes parcio ger Maes Mwldan.</i> Response to the confusing price structure at the Maes Mwldan car park.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 8/9/17. <i>Cytunwyd cynghori Ms Spain taw'r maes parcio y cyfeirir ato yw'r un gyferbyn i Maes Mwldan.</i> It was agreed to inform Ms Spain that the identified car park is opposite to Maes Mwldan.
125	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro.</i> Temporary road closure, <i>Ffair /Aberteifi /</i> Cardigan Fair, 10/11/17, 6.00-24.00	<i>Nodwyd.</i> Noted.

126	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro</i> . Temporary road closure, <i>Sul y Cadoediad / Remembrance Sunday</i> , 12/11/17, 10.40-11.40am	<i>Nodwyd.</i> Noted.
127	War Memorials Trust: <i>Yn hel gwybodaeth am berchnogaeth y senotaff yn Aberteifi</i> . Seeking information of ownership of the cenotaph in Cardigan as concerns have been expressed regarding the surrounding fence.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 13/9/17. <i>Cytunwyd anfon copi ymlaen at y cyngor sir (perchnogion y senotaff).</i> It was agreed to forward a copy to the county council (owners of the cenotaph).
128	<i>Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Ymholiadau ynglŷn â dyddiadau Sefydlu'r Maer</i> . Lampeter Town Council: Information required as to the date of the 2018 Mayor Installation Ceremony in Cardigan.	<i>Cytunwyd cynnal Seremoni Sefydlu Maer Tref Aberteifi ar nos Iau, 3 Mai 2018.</i> It was agreed to hold the Mayor Installation Ceremony on Thursday, 3 May 2018. <i>Cynigiwyd/proposed: Y Cyng./Cllr Graham Evans; Eiliwyd/seconded: Y Cyng./ Cllr Marilyn Farmer</i>
129	<i>Cyngor Tref Aberystwyth: Ymholiadau ynglŷn â dyddiadau Sefydlu'r Maer</i> . Aberystwyth Town Council: Information required as to the date of the 2018 Mayor Installation Ceremony in Cardigan.	<i>Cytunwyd cynnal Seremoni Sefydlu Maer Tref Aberteifi ar nos Iau, 3 Mai 2018.</i> It was agreed to hold the Mayor Installation Ceremony on Thursday, 3 May 2018. <i>Cynigiwyd/proposed: Y Cyng./Cllr Graham Evans; Eiliwyd/seconded: Y Cyng./ Cllr Marilyn Farmer</i>
130	<i>Cyngor Cymuned Aberporth: Cais am ganiatâd i'r Cadeirydd wisgo ei gadwyn i agoriad Ffair Aberteifi</i> . Aberporth Community Council: Application for the chair to wear his chain of office, 10/11/17 (Cardigan Fair)	<i>Mae'n bleser gan y cyngor roi caniatâd i Gadeirydd Cyngor Cymuned Aberporth i fod yn bresennol yn y dref.</i> The council is pleased to permit the Chair of Aberporth Community Council to be present in Cardigan.
131	<i>Fforddoeth Natur Cymuned Gardd Goedwig: Naturewise Community Forest Garden (Alpay Torgut): Community project to transfer 5 acres of Welsh Government land alongside the Teifi Business Park for a new forest garden.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 28/9/17. <i>Cytunwyd cefnogi'r fenter.</i> The council is pleased to support the venture. <i>Cynigiwyd/proposed: Y Cyng./Cllr Shan Williams; Eilydd/seconded: Y Cyng./Cllr Steffan Morgan</i>
132	<i>Cyngor Cymuned Llandudoch: Diolch i'r cyngorwyr am fynychu'r cyfarfod ym mis Medi</i> . St Dogmaels Community Council: Speed counts done by Pembrokeshire County Council.	<i>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7/12/17.</i> The next meeting will be held on 7/12/17. <i>Gofynnwyd i'r clerc anfon yr e-bost ymlaen eto at bawb.</i> The clerk was asked to re-send the e-mail to all members.
133	<i>Llyfrgell Aberystwyth Library: Gweithgareddau Llyfrgell Ceredigion, 9-14 Hydref. Ceredigion Libraries Week 2017, 9-14 October.</i>	<i>Mae posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed in the notice board.
134	<i>Tai Wales & West: Sesiwn galw heibio, Y Man a'r Lle, Aberteifi, 17/10/17, 4.00-7.00pm. Wales & West Housing Drop-in-session, 17/10/17.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/9/17.
135	<i>Gŵyl y Cynhaeaf: Gwahoddiad i'r cyngorwyr i'r agoriad swyddogol yn y Gyfnewidfa Yd, 27/9/17, 6.30yh. Invitation to all councillors to the official opening at the Corn Exchange, 27/9/17, 6.30pm.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 25/9/17.
136	Mr Roger Thomas: <i>Ymateb i lythyr y cyngor ynglŷn â'r safle awgrymedig i'r ganolfan iechyd newydd</i> . Response to the town council's letter regarding the location of the proposed integrated health centre.	<i>Mae'r aelodau i gyd wedi derbyn y neges.</i> The message has been forwarded to all members by Mr Thomas.
137	Mr Robert Davies (<i>Clwb Pêl-droed Aberteifi/ Cardigan F.C.</i>): <i>Materion y cae chwarae</i> . King George 5 th Playing Field issues: siting a container and creating a disabled-friendly path either side of the football pitch.	<i>Cytunwyd gosod yr eitem ar agenda cyfarfod blynyddol elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed ar 11 Hydref.</i> It was agreed to discuss the item at the KG5th Playing Field Charity AGM on 11 October.
138	<i>Cymdeithas Cynnal/Cefnogi Cefn Gwlad (4CG): Cais am gymorth ariannol i gynnal y toiledau</i> . Application for financial aid to support and maintain public conveniences.	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Elaine Evans, ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod y cyngor yn cyfrannu £8,000 tuag at gynnal y toiledau yn Lôn y Moch a Feidrfair.</i> It was proposed by Cllr Elaine Evans and seconded by Cllr Steffan Morgan that the council donates £8,000 to maintain the public conveniences in Chancery Lane and Feidrfair.

139	<i>Menter Aberteifi:</i> <i>Cais am daliad am system di-wifr yn y dref.</i> (Installation of a wi-fi system in Cardigan): <i>Request for payment of £5,000 (Town Centre Partnership).</i>	<i>Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths, ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn cyfrannu £5,000 tuag at gynnal y system di-wifr yn y dref.</i> It was proposed by Cllr Debra Griffiths and seconded by Cllr Elaine Evans that the council donates £5,000 towards the installation of a wi-fi system in Cardigan.
140	<i>Llywodraeth Cymru: Cylchdaith gweithio gyda'n gilydd ar gyfer cymunedau diogelach.</i> Welsh Government: Working together for safer communities roadshows, Police HQ Llangunnor, 15/9/17, 10.30-13.00.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/9/17.
141	<i>Theatr Mwldan:</i> <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
142	<i>CAB:</i> <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
143	<i>Ffrindiau Maes Sgrialu Aberteifi /</i> Friends of Cardigan Skatepark (FOCS): <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
144	<i>Pwll Nofio Aberteifi /</i> Cardigan Swimming Pool & Leisure Complex: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
145	<i>Carnifal Aberteifi Carnival:</i> <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
146	<i>Cynllun Chwarae Aberteifi / Cardigan Playscheme:</i> <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>Trafodwyd yn Is-bwyllgor Grantiau, 26 Medi.</i> Discussed at the 26 September Grants Sub-committee.
147	<i>Radio Ceredigion Local Hero Awards 2017:</i> Cliff Hotel, 15/9/17.	<i>Cynrychiolwyd y cyngor gan / The council was represented by Cllrs Graham Evans and Catrin Miles.</i>
148	<i>Soroptimist International Cardigan & District:</i> <i>Gwahoddiad i Ginio Elusennol / Invitation to the Charity Dinner, Cliff Hotel, 15/10/17, 12.30pm.</i>	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon at y Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
149	<i>Eglwys Gadeiriol Tyddewi: Gwahoddiad i'r Gwasanaeth Diolchgarwch.</i> <i>Invitation to the National Harvest Thanksgiving Service, St Davids Cathedral, 6/10/17, 6.00pm.</i>	<i>Cytunodd y Dirprwy Faer a Mrs Adams-Lewis fynychu'r digwyddiad.</i> The Deputy Mayor and Mrs Adams-Lewis agreed to attend the service.
150	<i>RNLI: Gwahoddiad i'r Ffair Nadolig, Gwesty'r Cliff, 15/11/17, 10.00yb.</i> Invitation to the Christmas Fair at the Cliff Hotel.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei flaenyrru i'r Maer.</i> <i>The invitation has been forwarded to the Mayor.</i>
151	<i>RNLI: Gwahoddiad i'r Gwasanaeth Carolau Nadolig, Eglwys Llandudoch, 17/12/17, 6.30yh.</i> Invitation to the Christmas Carol Service at St Thomas' Church, St Dogmaels, 17/12/17, 6.30pm.	<i>Cytunodd y Dirprwy Faer a Mrs Adams-Lewis fynychu'r digwyddiad.</i> The Deputy Mayor and Mrs Adams-Lewis agreed to attend the service. <i>The Deputy Mayor will undertake a reading at the service.</i>
152	<i>W. J. Williams & Davies: Llythyron yn ymwneud â phrydlesau Clwb Rygbi Aberteifi a Chlwb Bowls Aberteifi.</i> Letters pertaining to the leases of Cardigan RFC and Cardigan Bowling Club.	<i>Mae copïau wedi eu paratoi i gynrychiolwyr y cyngor; byddant yn ateb yn ôl i'r cyngor.</i> Copies have been prepared for the council representatives; they will report back to council following the meeting.
153	<i>Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report (Medi / September)</i>	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

Eirian Jones: *Is-Bennaeth Cynnal a Chadw Adeiladau / Assistant Chief Building Maintenance Officer*
Gari Jones: *Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth / Assistant Engineer Transport Strategy*
Huw Williams: *Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw / Head of Lifestyle Services.*
Katy Spain: *Rheolwr Gwasanaethau Parcio / Parking Services Manager*
Louise Zerk: *Adain Cau Ffyrd / Road Closures*
Mererid Jones: *Ailgylchu / Recycling*
Tom Delph-Janiurek: *Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management*

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 19 Medi.

Confirmation of 19 September Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion 19 Medi yn gywir.

Cllr Graham Evans proposed that the 19 September minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1277 (Cae Chwarae Brenin Siôr Sed): Cytunwyd bod gwifren yn cael ei defnyddio yn hytrach na phren i gywiro ffens y man chwarae aml-bwrpas.

Tud. 1278 (Cae Chwarae Pentop): Cytunwyd gwahodd Ms Gill Byrne (RAY Ceredigion) i roi cyflwyniad i'r cyngor mewn is-bwyllgor y dyfodol. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles gysylltu â Ms Byrne i drefnu dyddiad.

Tud. 1278 (Goleuadau Nadolig): Mae'r goeden Nadolig wedi ei harchebu oddi wrth Mr Richard Fletcher; bydd yn cyrraedd ddiwedd mis Tachwedd.

Page 1277 (*King George 5th Playing Field*): It was agreed to repair the fence of the multi-purpose play area with wire rather than wooden boards.

Page 1278 (*Pentop Playing Field*): It was agreed to invite Ms Gill Byrne (RAY Ceredigion) to give a presentation to a council sub-committee. Cllr Miles agreed to arrange a suitable date with Ms Byrne.

Page 1278 (*Christmas lights*): The Christmas tree has been ordered with Mr Richard Fletcher, Penrallt Garden Centre; delivery is expected towards the end of November.

Castell Aberteifi: Mae cyfarwyddwr newydd, Mr Jack Owen Davies, wedi ei benodi i edrych ar strwythur busnes am y tair blynedd nesaf. Bu gweithgareddau'r haf eleni yn llwyddiannus gyda niferoedd calonogol iawn wedi ymweld â'r safle.

Cardigan Castle: A new director, Mr Jack Owen Davies, has been appointed to further enhance the business structure during the next three years. Attendance at functions and events during the summer has been encouraging with numbers visiting the castle greatly increased.

Maes Sgrialu: Mae grant i ailwynebu'r cyfarpar wedi ei ganiatáu. Defnyddir rhan o'r arian i ddatblygu goleuadau ar y maes.

Skateboard Park: The grant to resurface the structure has been authorised. Some money may be allocated to improve the light source.

Cynllun Chwarae Aberteifi a Chlwb Ar Ôl Ysgol: Cytunodd y Cyng. Debra Griffiths gynrychioli'r cyngor i gyfarfod ym Maesglas ar 4 Hydref am 6.30yh.

The Cardigan After School Club & Holiday Playscheme: Cllr Debra Griffiths agreed to represent the council at a meeting in Maesglas on 4 October at 6.30pm.

12. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145).

Grant applications: Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

Trafodwyd y ceisiadau mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Rhoddion nos Fawrth, 26 Medi.

The applications were discussed at the Grants Sub-committee on Tuesday, 26 September.

1—Tîm Pêl-rwyd Merched Aberteifi / Cardigan Ladies Netball	£400
2—Theatr Byd Bychan / Small World Theatre	£500
3—Age Cymru Ceredigion	£2,000
4—Riding for the Disabled Association (RDA)	—
5—Carnifal Aberteifi / Cardigan Carnival	—
6—Yr Hoelion Wyth: Plâc i anrhydeddu / Plaque to honour Jonathan Jones	—
7—Canolfan Plant Jig-So Children's Centre	£500
8—Cymorth Ar Bopeth / Citizens' Advice Bureau (section 142)	£2,000
9—Cyfeillion y Maes Sgrialu / Friends of Cardigan Skatepark	£600
10—Theatr Mwldan	£3,500
11—Cynllun Chwarae Aberteifi / Cardigan Playscheme	£560
12—Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Memorial Pool & Hall	£2,000

Diystyrwyd ceisiadau 4, 5 a 6 am nad oedd cyfrifon ariannol wedi eu cyflwyno.

The above applications (4, 5 and 6) were not discussed as accounts were not submitted with the application.

Datganiad diddordeb/Declaration of interest:

Rhif y cais/Application No. 7, 8, 9 Y Cyng. / Cllr Clive Davies
Rhif y cais/Application No. 5, 8, 10 Y Cyng. / Cllr Elaine Evans
Rhif y cais/Application No. 5 Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein
Rhif y cais/Application No. 2, 11, 12 Y Cyng. / Cllr Catrin Miles
Rhif y cais/Application No. 5, 6 Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan
Rhif y cais/Application No. 5 Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill
Rhif y cais/Application No. 7 Y Cyng. / Cllr Shan Williams

Cynigiwyd gan y Cyng. Steffan Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod y taliadau uchod yn cael eu caniatáu.

It was proposed by Cllr Steffan Morgan and seconded by Cllr Debra Griffiths that the above donations be sanctioned.

Cynhelir noson i gyflwyno'r grantiau yn yr Ystafell Gynhadledd nos Iau, 19 Hydref am 6.30yh.

The presentation evening will be held at the Conference Room on Thursday, 19 October at 6.30pm.

13. Personél / Personnel.

14. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

Roedd y Maer yn absennol o'r cyfarfod.

The Mayor was absent from the meeting.

15. Unrhyw Fater Arall cofrestrwyd ymlaen llaw.

Any Other Business recorded in advance.

(a) Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:

(i) Cwynion am gostau parcio ym meysydd parcio Aberteifi.

Cynghorwyd Mrs Worrall i gysylltu â'r cyngor sir ar technical.services@ceredigion.gov.uk.

Complaints regarding the parking charges at Cardigan car parks.

Mrs Worrall is advised to contact the county council at the above e-mail address.

(b) Y Cyng. / Cllr Clive Davies:

(i) Arwyddbyst newydd i'r dref.

Cynigiwyd gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod y cyngor yn cyfrannu at y gost o £3,314.79 (sydd yn cynnwys y DAW).

New finger post signs for Cardigan.

It was proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Shan Williams that the council contributes towards the gross sum of £3,314.79 (including VAT).

(ii) Ariannu'r pared lanternau (Cymdeithas Aberteifi Society) a't gweithdai drwy gydweithrediad Theatr Byd Bychan a Chastell Aberteifi.

Dywedodd y Cyng. Davies bod arian wedi ei gymeradwyo o Gronfa'r Loteri a bod Masnachwyr Aberteifi yn cyfrannu tuag at y tân gwylt.

Funding via the Aberteifi for workshops from October for the lantern parade working with Small World Theatre and Cardigan Castle.

Cllr Davies stated that funding had been approved by the Lottery Fund and that Cardigan Traders would contribute towards the fireworks display.

(c) Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer:

(i) Cwynion am ailwynebu'r ffordd ym Mro Teifi.

Mae'r gwaith bellach wedi ei wneud.

Complaints regarding the resurfacing at Bro Teifi.

The work has since been completed.

(ii) Bro Teifi: Sbwriel (matrys) wedi ei adael.

Mae'r matrys bellach wedi ei waredu.

Bro Teifi: Fly tipping of a mattress.

The mattress has since been removed.

- (iii) **Palmant ger Garej Cawdor, Ffordd Aberystwyth.**
Cytunodd y Cyng. John Adams-Lewis gysylltu gyda Gari Jones, peiriannydd y cyngor sir, ynglŷn â datrys y broblem.
 Pavement near Cawdor Garage, Aberystwyth Road.
 Cllr Adams-Lewis agreed to contact Gari Jones, county council engineer, regarding solving this problem.
- (d) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**
 (i) **Gordyfiant ar y llwyni yn Heol Helyg a'r Rhos.**
Mae'r cyngor sir yn ymwybodol o'r broblem. Byddant yn cysylltu gyda'r perchennog; os na fydd ymateb cadarnhaol, bydd y cyngor sir yn trefnu'r gwaith ac yn anfon cyfrif i'r perchennog.
 Overgrowth on bushes at Heol Helyg and Y Rhos.
 The county council is aware of the overgrowth. They will contact the owner; if no response is received, they will complete the work and invoice the owner.
- (e) **Y Cyng. / Cllr Catrin Miles:**
 (i) **Cynrychiolydd ar bwyllgor Cyfeillion Ysbyty Aberteifi.**
Gwirfoddolodd y Cyng. Shan Williams fynychu'r Cyfarfod Blynyddol yn Ward Gollen ar 18 Hydref am 7.00yh.
 Representative on the League of Friends of Cardigan Hospital.
 Cllr Shan Williams volunteered to represent the council at the AGM to be held in Gollen Ward on 18 October at 7.00pm.
 (ii) **Cytunodd y Cyng. Miles ddelio gyda'r broblem o gordyfiant yn cael ei luchio i'r afon ger Clos y Gilfach.**
 Cllr Miles agreed to deal with the problem of cuttings and branches being thrown into the river near Clos y Gilfach.
- (f) **Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis:**
 (i) **Murlun Ystafell Radley: Mae Mr Glan Morgan a Mr Billy Hodges wedi gwneud gwaith adfer arbennig ar y murlun yn ystod yr wythnosau diwethaf yn rhad ac am ddim. Gwahoddir gweddwr'r artist (Mr Philip Smith), Mrs Beryl Smith, ymweld â'r murlun ar ei newydd wedd.**
 The Ystafell Radley Mural: Mr Glan Morgan and Mr Billy Hodges have given of their time voluntarily to restore and secure the mural. Mrs Beryl Smith, the widow of the artist (Mr Philip Smith) will be invited to inspect the finished work.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem yn ymwneud â Chae Chwarae Pentop mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed one item pertaining to Pentop Playing Field in committee. The above was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Debra Griffiths.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.15yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.15pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date